29AIN O DACHWEDD

# Ysgol Treganna

## Cylchlythyr wythnosol



### Wythnos yma

#### CogUrdd/ PobUrdd

Wythnos yma mae dau ddisgybl o'r ysgol wedi bod yn cystadlu yng nghystadlaethau PobUrdd a ChogUrdd Eisteddfod yr Urdd. Llwyddodd y ddau i ennill y cystadlaethau yn yr ysgol a'r cam nesaf oedd cystadlu yn erbyn cynrychiolwyr o ysgolion Caerdydd a'r Fro.

Y dasg i Joseph Sweeney o fl 6 yng nghystadleuaeth CogUrdd, oedd coginio byrgyr a llwyddodd i ennill rownd Caerdydd a'r Fro! Tipyn o gamp a'r disgybl cyntaf o Dreganna i ennill cystadleuaeth CogUrdd y sir. Bydd Joseph nawr yn cystadlu yn y rownd genedlaethol yn Eisteddfod yr Urdd ym Margam, ym mis Mai.

Da iawn hefyd i Tomos Whittam o flwyddyn 4 wnaeth gystadlu'r wythnos hon yng nghystadleuaeth PobUrdd Caerdydd a'r Fro. Y dasg oedd pobi pedair cacen ac roedd cacennau Tomos yn edrych yn hynod o flasus! Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ac rydym yn falch iawn o'u hymdrech a'u llwyddiant.

#### Ymweliad Daf James a Bethan Mai

Ddoe, daeth yr awdur Daf James a'r dylunydd Bethan Mai i'r ysgol i ymweld â Blwyddyn 5. Roedd y sesiynau yn rhan o ddathliadau gwobrau Tir na n-Og, sef gwobrau Cyngor Llyfrau Cymru. Llwyddodd Daf i ennill yn y categori cynradd eleni efo'i nofel "Jac a'r Angel". Roedd yn hyfryd i groesawu'r ddau i'r ysgol ac roedd blwyddyn 5 wedi cael amser wrth eu bodd yn gwrando ar y ddau yn siarad am y broses o ysgrifennu a dylunio llyfr. Diolch am ymweld ag Ysgol Treganna!

#### Clybiau allgyrsiol yr ysgol

Bydd y clybiau allgyrsiol sy'n cael eu rhedeg gan staff yr ysgol, yn gorffen ar ddydd Gwener y 29ain o Dachwedd. Diolch i'r holl staff sydd wedi cynnal y clybiau yma dros y tymor. Byddwn yn danfon rhestr o glybiau newydd tymor nesaf atoch. Bydd y clybiau yma yn cychwyn ar ddydd Llun y 13eg o Ionawr. Cofiwch fod ein clybiau yn agored i bawb.

## Calendr


YSGOL TREGANNA

**Ffair Nadolig**
**30/11/24**

**Bws Beic**
**13/12/24**


# Y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon


Cofiwch am y Ffair Nadolig dydd Sadwrn, y 30ain o Dachwedd, 10-2 yn neuadd yr ysgol. Diolch i'r GRhA ac i'r holl wirfoddolwyr sydd wedi bod wrthi yn trefnu'r digwyddiad.













## Linc i siop y GRhA

https://ysgol-gymraeg-treganna-parent-teacher-association.sumupstore.com

## Sioeau Nadolig

Rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu i'r ysgol dros yr wythnosau nesaf ar gyfer y sioeau Nadolig.

Cofiwch fod disgyblion bl 4,5, a 6 yn aros ar gyfer y tair noson. Ond prynwch docyn ar gyfer noson cymuned eich plentyn.

Mae dyddiadau ac amseroedd y sioeau Nadolig wedi eu nodi isod.

**Dyma ddyddiadau sioeau Nadolig mis Rhagfyr.**

| Pwy? | Pryd? | Faint o'r gloch? | Ble? |
|---|---|---|---|
| Meithrin (Math) | 19/12/24 | 10.00yb a 2.00yp | Neuadd yr ysgol |
| Derbyn | 16/12/24 | 2.00yp | Neuadd yr ysgol |
| Manawydan (Bl 1,2 a 3) | 4/12/24 | 10.00yb | Neuadd yr ysgol |
| Branwen (Bl 1,2 a 3) | 4/12/24 | 2.00yp | Neuadd yr ysgol |
| Pwyll (Bl 1,2 a 3) | 5/12/24 | 10.00yb | Neuadd yr ysgol |
| Manawydan (Bl 4,5 a 6) | 12/12/24 | 5.00yp | Neuadd yr ysgol |
| Branwen (Bl 4,5 a 6) | 11/12/24 | 5.00yp | Neuadd yr ysgol |
| Pwyll (Bl 4.5 a 6) | 10/12/24 | 5.00yp | Neuadd yr ysgol |

**Patrwm Iaith**

**Wythnos nesaf, dyma batrwm iaith yr wythnos**
Ddoe/ Neithiwr/ Dydd…es i…

**Her**
Ar ddydd…byddaf yn mynd i…

**Testun trafod yr wythnos**
Fy hoff ffilm i yw…

**Cân yr wythnos**
Yws Gwynedd- Fy Nghariad Gwyn

**Idiom yr wythnos**
Cyntaf i'r felin caiff falu.